

Llais Y Tenantiaid ar argyfwng Covid-19



Cyflwyniad

O ystyried sefyllfa bresennol Covid-19, gofynnodd TPAS Cymru am farn tenantiaid ar eu teimladau yn ystod yr amser yma. Mae'r mewnlifiad o flogiau ac erthyglau ar gyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu'r anhawster o wybod sut mae pobl yn wirioneddol deimlo am ffactorau sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd. Trwy ymgysylltu â'n haelodau landlord, roeddem yn gallu casglu cwestiynau a fydd yn helpu i gefnogi landlordiaid a llunwyr polisi ehangach i addasu eu gwasanaethau i anghenion eu tenantiaid.

Methodoleg:

1. Pwls Tenantiaid – arolwg ar-lein ar gyfer aelodau Pwls Tenantiaid sy'n byw mewn tai cymdeithasol, tai â chymorth a'r Sector Rhentu Preifat. Cyhoeddwyd yr arolwg ar 26 Mawrth 2020 a bu ar agor am 11 diwrnod.

Dyluniwyd y cwestiynau safonol a nodwyd yn holiadur yr arolwg gan TPAS Cymru gyda mewnbwn gan Dai Cymunedol Cymru, Cyngor Abertawe, Cartrefi Dinas Casnewydd ac Ateb.

1. Yn wyneb y sefyllfa Covid-19 bresennol, sut ydych chi'n teimlo am eich tenantiaeth?
Pryderus Dim yn bryderus (cwestiwn lithrydd)
2. Os ydych yn bryderus, pa un o'r ffactorau canlynol sy'n cyfrannu at hyn?:
 - *Y gallu i dalu fy rhent*
 - *Y bygythiad o golli fy swydd*
 - *Diffyg mynediad at siopau (bwyd, dillad, meddyginiaeth)*
 - *Mynd yn sâl / salwch yn y teulu*
 - *Diflastod ac unigrwydd*
 - *Nid wyf yn bryderus*
 - *Arall (rhowch sylwadau)*
3. Ydych chi'n gwybod beth i'w wneud os na fyddwch yn gallu talu eich rhent?
Ydw Nac ydw
4. Ydych chi'n gwybod pa gamau mae eich landlord yn eu cymryd i leihau unigrwydd?
Ydw Nac ydw
5. Ydych chi'n teimlo'n gyffyrddus yn caniatáu mynediad i grefftwyr ar gyfer cynnal a chadw (gan gynnwys gwiriadau diogelwch blynyddol) fel gwasanaethu nwy a thrydan? A oes unrhyw beth a fyddai'n gwneud i chi deimlo'n fwy cyfforddus?
Ydw Nac ydw Rhowch sylwadau
6. Ydych chi'n meddwl bod cyfathrebiad eich landlord o ran Covid-19 wedi bod yn ddefnyddiol?
Ydw Nac ydw Rhowch sylwadau

7. Ymhle ydych chi'n dod o hyd i wybodaeth am Covid-19?

- *Ffrindiau a theulu*
- *Cyfryngau cymdeithasol*
- *Llythyrau ac e-byst*
- *Newyddion teledu/radio*
- *Cyhoeddiadau dyddiol y Prif Weinidog*
- *Fy landlord*
- *Cyngor lleol*

8. Pa adnoddau digidol hoffech chi i'ch landlord ei ddarparu yn ystod y cyfnod hwn o bellhau cymdeithasol?

- *Galwad ffôn i helpu gyda siopa ar-lein*
- *Gwybodaeth ar y grwpiau cymunedol sydd ar gael ar Facebook*
- *Galwad ffôn i helpu gyda gosod galwadau fideo*
- *Gwybodaeth am dalu rhent a threfnu trwsïadau*
- *Gwybodaeth ar gadw'n iach a heini*
- *Arall (rhowch sylwadau)*

9. Oes yna unrhyw beth sydd yn eich rhwystro rhag pellhau cymdeithasol / ynysu yn effeithiol?

- *Gorfod gofalu am aelodau o'r teulu / ffrindiau*
- *Angen gallu nôl bwyd yn rheolaidd*
- *Angen gallu nôl cyflenwadau meddygol yn rheolaidd*
- *Gofynion gwaith*
- *Rydw i eisïau gweld pobl*
- *Mae gen i gyfrifoldebau cyd-rianta*
- *Dim byd, gallaf hunan ynysu yn effeithiol ar hyn o bryd*

10. Beth yw'r datblygiad neu'r prosiect mwyaf cadarnhaol a welsoch yn eich cymuned?
(Cwestiwn agored)

11. Yn eich barn chi, beth ddylai blaenoriaeth eich landlord fod ar gyfer y dyfodol agos?
(Cwestiwn agored)

Cyfraddau ymateb:

Cwblhaodd 351 o denantïaid yr arolwg. Oherwydd natur sensitif amser yr arolwg hwn, anfonwyd hwn at aelodau Pwls Tenantïaid trwy e-bost gan arwain at gyfradd ymateb o 45%. Mae hyn yn gyfradd ymateb uwch na'r cyfartaledd, sy'n adlewyrchu difrifoldeb y mater hwn.

Noder: Yn ystod y cyfnod yma, roedd y sector yn trosglwyddo i weithio o adref. Nid oedd gennym yr offer na'r adnoddau staff i'w hanfon at ein haelodau Pwls sydd fel arfer angen fersiynau papur gydag amlenni rhagdaledig.

Y wybodaeth a gasglwyd:


Ym mis Ebrill 2020, bydd TPAS Cymru yn rhannu canfyddiadau'r arolwg hwn â Landlordïaid Cymdeithasol Cofrestredig, Landlordïaid Awdurdodau Lleol, ein haelodau dwyochrog a'n

tenantiaid o bob rhan o'r sector tai cymdeithasol. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafodd TPAS Cymru gan denantiaid.

Canlyniadau'r Arolwg


Sefyllfa byw'r tenantiaid

Yn unol â'n harolygon blaenorol, tenantiaid cymdeithasau tai yw'r gyfradd ymateb uchaf o hyd, gan adlewyrchu proffil panel Pwls. Fodd bynnag, bu cynnydd amlwg yn yr ymateb gan denantiaid yn y sector rhentu preifat a chan awdurdodau lleol y tro hwn.




Ardal Awdurdod Lleol

Yn yr arolwg yma, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn ymatebion tenantiaid yng Nghaerdydd sy'n ganlyniad i'n hymgysylltiad ehangach â'r sector rhentu preifat. Rydym hefyd wedi nodi cynnydd sylweddol mewn ymatebion o Sir Gaerfyrddin a Chaerffili. Mae RhCT a Conwy wedi aros ar duedd gyda'u hymatebion. Mae bwrdeistref Merthyr yn parhau i fod yr ardal ymateb isaf.



1. Gofynnwyd i denantiaid sut roeddent yn teimlo am eu tenantiaeth o ystyried sefyllfa bresennol Covid-19.


Canfyddiad allweddol: Nid oedd dros 50% o denantiaid yn teimlo'n bryderus ynglŷn â'u tenantiaeth er gwaethaf yr hinsawdd sydd ohoni. Mae hyn yn glod i'r gwaith y mae landlordiaid a'r sector ehangach wedi bod yn ei wneud i sicrhau bod gan eu tenantiaid y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn ystod cyfnod mor ansicr ac anodd. Wrth ddadansoddi'r data o'r gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol, roedd y lefel uchaf o bryder yng Nghaerdydd, Caerffili, Ynys Môn, Sir Ddinbych a Blaenau Gwent. Roedd tenantiaid tai cymdeithasol yn poeni llai na rhentwyr preifat. Amlygodd y tenantiaid â phryderon rai o'r rhesymau pam yn y cwestiwn canlynol.



2. Gofynnwyd i denantiaid pa ffactorau oedd yn eu poeni

Oherwydd cyflymder yr arolwg hwn, ni chawsom gyfle i brofi opsiynau. Yn y cwestiwn hwn, rhoddwyd cyfle i denantiaid ddewis pob un o'r chwe ffactor.


Canfyddiad allweddol: tra bod gan 'Mynd yn sâl' y ganran uchaf, gallwn weld o'r sylwadau bod hyn yn ymwneud yn gryf â'r 'gallu i fforddio eu rhent' o dan amgylchiadau o'r fath. Roedd llawer o'r tenantiaid ar absenoldeb seibiant o'r gwaith (*furlough*) ac roedd y gostyngiad cyflog yn bryder o ran rheoli cost eu rhent. Roedd y tenantiaid hŷn a mwy agored i niwed, y disgwylid iddynt aros adref am 12 wythnos, yn poeni am golli incwm cartref a methu â chael bwyd a meddyginiaeth. Ymhlith y ffactorau cymdeithasol ychwanegol a nodwyd mai diflastod ac unigrwydd sy'n rhywbeth yr ydym wedi'i nodi gyda landlordiaid fel pryder posibl. Roedd rhieni sengl a phobl ag anabledau yn poeni am allu mynd i siopa pe byddent yn mynd yn sâl neu eu plant yn mynd yn sâl.



3. Ydych chi'n gwybod beth i'w wneud os na fyddwch yn gallu talu eich rhent?

Mae hyn yn dangos bod ymdrechion landlordiaid i ymgysylltu â thenantiaid yn llwyddiannus ar y cyfan. O ran ardal awdurdod lleol, roedd dros 90% o denantiaid yng Nghasnewydd a Torfaen yn gwybod beth oedd angen iddynt ei wneud pe na allent dalu eu rhent. Roedd dros 80% yng Ngwynedd a Sir Fynwy a bron i 70% yn Sir Gaerfyrddin a RhCT hefyd yn gwybod beth i'w wneud.

Canfyddiad Allweddol: Ardal Caerffili oedd y pryder mwyaf gyda dros 50% o denantiaid ddim yn gwybod beth i'w wneud o dan yr amgylchiadau hyn gan awgrymu y byddai landlordiaid yn elwa o ymgysylltu'n ehangach â'u tenantiaid.



4. Ydych chi'n gwybod beth mae'ch landlord yn ei wneud i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd?


Canfyddiad allweddol: Dywedodd 76% o denantiaid na. Ffigur arwyddocaol ymhlith y corff tenantiaid cenedlaethol. Roedd ffigurau mor uchel yn ymwneud ag unigrwydd yn annisgwyl yn seiliedig ar y gwaith hysbys a oedd yn cael ei wneud gan landlordiaid i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol, gan gynnwys casglu gwybodaeth am gymorth lleol ac ati. Gall fod nad yw tenantiaid wedi ystyried y galwadau ffôn y maent yn eu derbyn gan eu landlordiaid fel ffordd o leihau'r ffactorau hyn.

Rydym yn argymhell:

- Dylai landlordiaid gyfathrebu'r camau rydych chi'n eu cymryd i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd yn fwy, a rhannu mor eang â phosib.
- Roedd yna denantiaid yr ystyrir fel rhai sy'n agored i niwed nad oedd eu landlord wedi cysylltu â nhw eto
- Roedd llawer o denantiaid a gwblhaodd yr arolwg hwn yn teimlo dan straen ac yn bryderus ynghylch methu â gadael eu cartref, yn enwedig rhai ag anableddau a phlant ac anifeiliaid anwes i ofalu amdanynt.
- Nododd llawer o denantiaid eu bod yn rhywun a oedd eisoes yn cael trafferth â'u hiechyd meddwl a'u bod yn teimlo y byddai hyn yn gwaethygu oherwydd unigrwydd ac arwahanrwydd.
- Roedd rhai yn pryderu nad oeddent yn gallu siopa bwyd ar-lein gan eu bod wedi'u harchebu ymlaen llaw ac nad oedd ganddynt unrhyw un i gysylltu i'w helpu.

Fel y nodwyd yn ein methodoleg, nid oeddem yn gallu anfon arolygon trwy'r post sydd bennaf yn ddemograffig hŷn ac felly'n fwy agored i niwed. Rydym yn argymhell yn gryf bod tenantiaid o'r fath sydd o'r proffiliau tebyg yn derbyn gwybodaeth papur am yr hyn y mae landlordiaid yn ei wneud i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd lle bo hynny'n bosibl.

O ran ardal awdurdodau lleol, nid oedd unrhyw ardaloedd yn llawer mwy ymwybodol nag eraill.




5. Ydych chi'n teimlo'n gyffyrddus yn caniatáu mynediad i grefftwyr ar gyfer cynnal a chadw ac a oes unrhyw beth a fyddai'n gwneud ichi deimlo'n fwy cyfforddus?

Canfyddiad allweddol: Roedd 57% yn gyffyrddus yn ddarostyngedig i amodau, ond nid oedd y 43% arall yn hapus i roi unrhyw fynediad. Yn seiliedig ar adborth gan landlordiaid, roeddem yn disgwyl i ganran uwch o denantiaid deimlo'n anghyffyrddus â chaniatáu mynediad. Ymhlith y canfyddiadau:

- Pwysleisiodd mwyafrif y tenantiaid a atebodd 'ydw', y byddent yn teimlo'n gyffyrddus pe bai'r crefftwr yn gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol ac yn cadw'r lefel ofynnol o bellter cymdeithasol yn ystod yr ymweliad.
- Teimlai tenantiaid yr hoffent dderbyn llythyr, neges destun neu e-bost i baratoi ar gyfer eu hymweliad ac y dylai landlordiaid ddefnyddio'r cyfle hwn i ofyn i denantiaid sut y maent yn ymdopi fel y gellir bwydo hyn yn ôl.
- Roedd nifer o denantiaid benywaidd yn teimlo y byddai'n well ganddynt grefftwr benywaidd yn ystod cyfnod lle roeddent eisoes yn teimlo'n fregus iawn.
- Roedd sawl tenant yn teimlo mai dim ond gwaith cynnal a chadw brys y dylid ei wneud ar yr adeg hon.

Roeddem yn ymwybodol bod landlordiaid yn gyffredinol yn rhoi gwybod i denantiaid am ymweliadau o'r fath ymlaen llaw. Fodd bynnag, dywedwyd dro ar ôl tro nad oedd tenantiaid yn ymwybodol y byddai crefftwyr / staff cynnal a chadw yn ymweld nes eu bod mewn gwirionedd yn cyrraedd stepen y drws. Mae hyn wedi cynyddu lefelau pryder ymhlith tenantiaid sy'n nodi eu bod yn agored i niwed.

Roedd amrywiad amlwg mewn ardaloedd; Mae Ynys Môn, Caerffili, Sir Ddinbych a Dyffryn Morgannwg yn teimlo'n gryf am beidio â chaniatáu mynediad, ond roedd Sir Gaerfyrddin, Sir Fynwy, Sir Benfro, RhCT a Torfaen yn agored i ganiatáu mynediad yn seiliedig ar y ffactorau a grybwyllwyd uchod.




6. Ydych chi'n meddwl bod cyfathrebiad eich landlord o ran Covid-19 wedi bod yn ddefnyddiol?

Canfyddiad allweddol: Roedd tenantiaid a ymatebodd 'na', yn nodi nad oeddent yn derbyn unrhyw ohebiaeth gan eu landlordiaid, a dim ond y lleiafrif oedd yn anhapus â'r gyfathrebiaeth a gawsant.

Roedd y rhai a ymatebodd 'ydw' yn teimlo bod y cyfathrebu wedi bod yn amhrisiadwy gyda'r mwyafrif yn sôn am alwadau ffôn a gawsant a oedd yn eu sicrhau mewn amseroedd mor ansicr.


Roedd yn amlwg bod y rhai a oedd wedi ymateb efo 'ydw' wedi bod yn cyrchu gwefannau landlordiaid a chyfryngau cymdeithasol ac felly'n fwy abl yn ddigidol. Mae'n bwysig bod cyfathrebu'n dal i gael ei rannu trwy sawl dull ymgysylltu i sicrhau bod gan denantiaid neges gywir, glir a chryno.

Yr ardaloedd awdurdod lleol gyda nifer sylweddol o denantiaid yn y categori 'na' oedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Powys. Yn wrthgyferbyniol, yr ardaloedd â nifer sylweddol o denantiaid yn teimlo bod y cyfathrebu gan landlordiaid wedi bod o gymorth oedd Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Aberteifi. Conwy, Gwynedd, Ynys Môn, Castell-nedd a Wrecsam.



7. Ymhle ydych chi'n dod o hyd i wybodaeth am Covid-19?

Canfyddiad allweddol: Nid oedd cyfathrebiadau penodol gan landlordiaid yn amlwg iawn wrth edrych ar y cyd-destun ehangach o gael gwybodaeth.



Canlyniadau:

- Mae pobl yn cael negeseuon o ystod eang o ffynonellau ac yn aml roedd sylwadau gwrthygyferbyniol
- Roedd Teledu / Radio o drwch blewyn yn fwy na'r cyfryngau cymdeithasol i gael gwybodaeth
- Ar ddechrau'r arolwg hwn - roedd cyhoeddiadau'r Prif Weinidog yn boblogaidd iawn oherwydd pwysigrwydd ei ddatganiadau? Gostyngodd y niferoedd hyn wrth i amser fynd yn ei flaen: o bosibl oherwydd bod pobl yn setlo i hunan ynysu a gweithio gartref ac ati?
- Roedd Rhentwyr Preifat yn edrych at eu cyngor lleol am newyddion a diweddariadau o gymharu ag eraill (bron i ddwbl yr hyn sy'n digwydd gyda thenantiaid CT a'r Cyngor). Roedd cael gwybodaeth gan eu landlord bron i 0%.
- Gall llythyrau gymryd amser i'w lledaenu. Roedd y llythyr gan Lywodraeth y DU yn cyrraedd ar garreg y drws y rhan fwyaf o bobl yr un diwrnod ac yr oeddem yn cau ein harolwg.

8. Pa adnoddau digidol yr hoffech gymorth gyda?


Cefndir: Dros yr wythnosau diwethaf, rydym wedi ymgysylltu â landlordiaid a oedd yn teimlo'n ansicr pa rôl yr hoffai tenantiaid iddynt ei chwarae yn ystod yr argyfwng presennol.

Canfyddiad allweddol: Er yr hoffai tenantiaid gael gwybodaeth am ystod o feysydd, y wybodaeth bwysicaf y maent yn chwilio amdani yw 1) talu rhent a 2) trefnu atgyweiriadau.

Yn ddiddorol, roedd nifer o denantiaid yn teimlo nad cyfrifoldeb eu landlord oedd helpu gydag unrhyw beth heblaw rhent a chynnal a chadw ac y dylent fod yn canolbwyntio ar ddarparu gwyliau rhent. Fodd bynnag, roedd tenantiaid yn pwysleisio y byddent yn gwerthfawrogi galwad ffôn a gwybodaeth ar gadw'n heini ac yn iach er mwyn sicrhau eu bod yn gallu rheoli eu hiechyd meddwl eu hunain. Nododd tenantiaid yn aml am eu brwydrau â'u hiechyd meddwl a sut y gallai galwadau ffôn o'r fath helpu i leihau'r symptomau hyn.

O ran yr 19% a ddewisodd 'arall', nododd y mwyafrif nad oeddent eisiau unrhyw beth gan eu landlord. Soniodd eraill am ddsbarthu parseli bwyd oherwydd amseroedd aros archebion ar-lein ac eisiau gwybodaeth gan landlordiaid am gwmnïau neu bobl a fydd yn darparu meddyginiaeth.

Wrth archwilio hyn ymhellach, roedd gwahaniaeth clir rhwng tenantiaid tai cymdeithasol a thenantiaid yn y Sector Rhentu Preifat. Roedd mwyafrif y tenantiaid a nododd nad oeddent eisiau 'dim byd' yn byw mewn llety preifat ac o bosibl yn debygol o fod â disgwyliadau is gan eu landlord.




9. Oes unrhyw beth yn eich rhwystro rhag pellhau cymdeithasol?

Canfyddiad allweddol: Yn ffodus, mae'r gyfran fwyaf o denantiaid yn gallu pellhau'n gymdeithasol yn effeithiol.

Yn ôl y disgwyl, roedd y gallu i gael bwyd yn arwain at bron i 25% o denantiaid yn peryglu eu hunain a'u teuluoedd.

Mae'r thema hon wedi bod yn gyson trwy gydol yr adroddiad hwn, gydag amseroedd aros cyhyd â mis ar gyfer danfon bwyd o archfarchnadoedd. Efallai bod hon yn llwybr y mae angen ei archwilio ymhellach?

Er nad yw pobl sy'n gweithio yn y sector tai yn gallu cyflawni eu rolau arferol ar hyn o bryd, a allem gefnogi tenantiaid trwy ymgysylltu â darparwyr bwyd lleol ac archfarchnadoedd i gefnogi dosbarthu bwyd i'r rhai sy'n agored i niwed, fel yr henoed, y rheini ag anabledau ond hefyd i'r rhai heb rwydwaith cymorth yn yr ardal? Rydym yn ymwybodol bod llawer o arfer gwych yn digwydd o ran dosbarthu parseli bwyd ar draws y sector, ond mae'n amlwg bod angen ehangu hyn.



10. Beth yw'r datblygiad neu'r prosiect mwyaf cadarnhaol a welsoch yn eich cymuned?

Canfyddiadau allweddol:

- Mae yna ystod eang o weithgareddau'n digwydd
- Roedd pobl yn ymateb yn gadarnhaol ar y cyfan i'r cwestiwn hwn
- Maent wedi sylwi ar y fenter hon ond nid oedd pob un wedi rhyngweithio â'r gwasanaethau hyn

Soniodd nifer sylweddol o denantiaid am grwpiau cymunedol lleol yn cael eu sefydlu ar Facebook i gynnig cefnogaeth i'r henoed, siopa i'r rhai sy'n agored i niwed a rhannu gweithgareddau i blant eu gwneud gartref. Roedd ymdeimlad clir o 'deimlad cymunedol' ymhlith ymatebwyr gyda nifer ohonynt yn pwysleisio'r newid cadarnhaol yn eu cymuned o ran gofalu am ei gilydd.

11. Yn eich barn chi, beth ddylai blaenoriaeth eich landlord fod ar gyfer y dyfodol agos?

Canfyddiad allweddol:

Yn ôl y disgwyl, y thema gyson trwy gydol yr ymatebion oedd yr angen i gynnig dau beth:

- 1) Gwyliau rhent yn ystod argyfwng Covid-19
- 2) Cefnogaeth a peidio cael eu troi allan os na allent dalu rhent

Roedd dealltwriaeth glir gan denantiaid nad oes neb yn gwybod pa mor hir y bydd y sefyllfa hon yn para ac yr hoffent gael sicrwydd y bydd eu cartref dal ganddynt ar ei ddiwedd.

Rydym yn argymhell yn gryf bod landlordiaid yn parhau i rannu'r llythyr diweddar gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James AC i roi sicrwydd iddynt ar hyn o bryd.

Casgliad

Er ein bod yn deall bod y rhain yn amseroedd ansicr i bawb a'n bod i gyd yn addasu ein gwasanaethau, mae canlyniadau'r arolwg hwn yn tynnu sylw at yr angen am fân addasiadau i alluogi tenantiaid i deimlo eu bod yn cael cefnogaeth ac i landlordiaid barhau i gynnig gwasanaeth.

Roedd themâu allweddol drwyddi draw yn tynnu sylw at yr angen am:

- 1) Mwy o wybodaeth am renti a chynnal a chadw gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu
- 2) Pwysigrwydd galwad ffôn i gefnogi tenantiaid â'u hiechyd meddwl a'u lles
- 3) Yr angen am gefnogaeth i sicrhau cyflenwadau bwyd
- 4) Nid yw Rhentwyr Preifat yn edrych at eu landlord am gyngor a chefnogaeth ond mae angen iddynt weld yr un cynnig gan eu landlord ynghylch opsiynau hyblygrwydd rhent.

Ynglŷn â TPAS Cymru



Mae TPAS Cymru wedi cefnogi tenantiaid a landlordiaid yng Nghymru ers dros 30 mlynedd i ddatblygu cyfranogiad tenantiaid a chymuned effeithiol trwy hyfforddiant, cefnogaeth, prosiectau ymarferol a datblygu polisi. Yn lleol rydym yn cefnogi grymuso cymunedau trwy gyngor ymarferol, cefnogaeth, hyfforddiant a gwaith prosiect. Ar lefel y Llywodraeth, rydym yn cyfrannu at newidiadau polisi trwy weithio gyda sefydliadau partner i sicrhau bod llais y

tenant yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.



Llais tenantiaid yng Nghymru yw Pwls Tenantiaid. Fe'i crëwyd gan TPAS Cymru ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Ein nod yw:

- i) Darganfod beth sydd fwyaf pwysig i denantiaid
- ii) Cynnal arolygon rheolaidd
- iii) Cynnal raffl i wobrwyo pobl sy'n cymryd rhan

Defnyddir canlyniadau ein harolygon gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i greu polisi tai sy'n gweithio i denantiaid, ac sy'n helpu i wneud tai yng Nghymru yn fwy diogel a thecach.